**Adroddiad ar**

# Mochdre Playgroup

**Ysgol Fabanod Mochdre**
**Ffordd yr Orsaf**
**Mochdre**
**Conwy**
**LL28 5EF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Mochdre Playgroup

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Mochdre Playgroup |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Mochdre Playgroup |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Cheryl Jones |
| Person â gofal | Cheryl Jones |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9am – 3pm dydd Llun, dydd Mawrth; 9am – 5pm dydd Mercher – dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mae hwn yn arolygiad ar ôl cofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/04/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1. Parhau i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y lleoliad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud â threfniadau pontio ac asesu adeg mynediad sy'n meithrin amgylchedd meithringar yn effeithiol ar gyfer pob un o'r plant, i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae bron pob un o’r plant yn ymateb yn dda i gyfleoedd diddorol a chyffrous i wneud penderfyniadau yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn penderfynu p’un a ydynt am chwarae’r tu allan neu’r tu mewn ac yn dewis rhwng yr amrywiaeth eang o adnoddau a gweithgareddau ysgogol a gynigir. Maent yn symud yn rhydd rhwng gwahanol ardaloedd, gan gario teganau ac adnoddau i gefnogi eu chwarae. Mae plant yn mynegi eu barn yn hyderus ac fe gaiff eu diddordebau eu cynnwys mewn materion sy’n effeithio arnyn nhw. Er enghraifft, mae plant yn datblygu perthnasoedd cryf â gweithwyr allweddol sy’n gweithio’n agos â nhw.

Mae bron pob un o’r plant yn eithriadol o hapus ac wedi setlo trwy gydol eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn hyderus, yn ymdopi â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni a’u gofalwyr yn dda, ac yn edrych ymlaen ar ddechrau pob diwrnod yn y lleoliad. Mae bron pob un o’r plant yn ffurfio ymlyniadau emosiynol cryf ac ymddiriedus â thîm bach o ymarferwyr y maent yn eithriadol o gyfarwydd â nhw. Mae bron pob un o’r plant yn barod i droi at ymarferwyr, gan gyfathrebu â nhw mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn dibynnu ar eu cyfnod datblygu. Maent yn gwahodd ymarferwyr yn frwd i’w chwarae ac yn dod atynt i gael cymorth, cysur neu sicrwydd, os oes angen. Er enghraifft, mae rhai plant yn barod i wneud arwyddion i ymarferwyr pan fydd angen cymorth arnynt â golchi dwylo, tra bod plant eraill wrth eu boddau pan fydd aelod o staff yn ymateb i’w gwahoddiad i’w helpu i chwilio am drysor ac adeiladu cuddfan. Maent yn gwybod y bydd ymarferwyr bob amser yn dangos diddordeb, yn gofalu am eu hanghenion ac yn gwrando arnynt. Mae bron pob un o’r plant yn gyfarwydd ag arferion a disgwyliadau yn y lleoliad, ac mae hyn yn ychwanegu at eu hymdeimlad cryf o berthyn. Er enghraifft, mae plant yn awyddus ac yn barod i ymuno â siglo’u ‘bys Cymraeg’ wrth iddynt gyfrif eu ffrindiau ar ddechrau’r dydd.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dechrau gwneud ffrindiau yn unol â’u hoedran a’u cyfnod datblygu. Maent yn chwarae’n fodlon gyda ffrind neu ochr yn ochr â’i gilydd, ac yn dechrau cydweithredu a rhannu adnoddau’n dda. Er enghraifft, mae plant yn chwarae’n hapus gyda’i gilydd wrth iddynt sgleinio’u tortshis a chwilio am ‘drysor’. Maent yn mwynhau torri toes chwarae ochr yn ochr â’i gilydd wrth y bwrdd, gan sicrhau eu bod yn gadael digon o le i blant eraill ymuno. Mae llawer o blant yn dysgu ystyried anghenion plant a phobl eraill yn dda. Er enghraifft, gydag ychydig o gymorth, maent yn rhoi digon o le i’w gilydd ar y ffrâm ddringo, gan ddangos ymwybyddiaeth aeddfed o anghenion a dyheadau plant eraill.

Mae bron pob un o'r plant yn hynod frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent wir yn mwynhau gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion a chyfleoedd i arwain eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, mae plant yn chwilio'n ddiwyd am eu diddordebau eu hunain y tu allan, yn gwenu o glust i glust yn ddiweddarach ac yn galw allan yn frwdfrydig wrth iddynt ymuno â stori.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos lefel gynyddol o annibyniaeth yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad ac yn cael llawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'r medrau hyn ymhellach. Er enghraifft, mae plant yn helpu eu hunain i fyrbryd a llawer ohonynt yn tywallt eu llaeth o botel heb gymorth. Maent yn defnyddio'r toiledau yn annibynnol ac yn golchi eu dwylo, gydag anogaeth a chymorth gan staff.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Mae hyn oherwydd bod nifer y plant tair a phedair oed a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall yn rhy fach i adrodd arno heb fod modd adnabod plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth ragorol o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am faterion diogelu ac yn dilyn gweithdrefnau diogelu'r lleoliad yn ddiwyd, gan gadw cofnodion manwl a thra-chywir. Mae ymarferwyr yn cofnodi damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes yn gywir ac yn rhannu'r wybodaeth hon gyda rhieni yn brydlon. Mae arweinwyr yn monitro'r cofnodion hyn i nodi patrymau a thueddiadau ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn rhagweithiol fel maent yn codi. Mae ymarferwyr yn effro a sylwgar wrth ofalu am blant i sicrhau bod amseroedd byrbrydau a phrydau bwyd yn hynod o ddymunol, hamddenol, cymdeithasol a diogel. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, trwy gynnig dewis o fwyd iach amser byrbryd. Maent yn sicrhau bod plant yn gallu manteisio ar brofiadau chwarae yn yr awyr agored bob dydd ac yn deall buddion ymarfer corff ac awyr iach. Mae ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân, sy'n helpu plant a phob un o'r cydweithwyr i wybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Maent yn gwerthuso'r gweithdrefnau a'r amseroedd gwacáu ac yn cofnodi unrhyw welliannau y gallai fod eu hangen. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl rhagorol. Maent yn eithriadol o garedig, gofalgar, pwyllog ac amyneddgar. Maent yn dod â chynhesrwydd a hiwmor wrth iddynt ryngweithio â phlant ac yn ymatebol iawn i gynigion plant i gyfathrebu. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn mwynhau eu cyfnod yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn rhagorol yn y ffordd y maent yn rheoli ac yn cefnogi ymddygiad plant. Maent yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth reolaidd yn effeithiol ac yn defnyddio ymadroddion cadarnhaol i annog yr ymddygiad y mae arnynt eisiau ei weld. Mae ymarferwyr yn annog plant yn dyner i fod yn garedig, dangos parch at ei gilydd, a rhannu adnoddau. Maent yn sensitif ac yn feddylgar yn y ffordd y maent yn cynorthwyo plant i ddatrys anghytundebau pan fyddant yn codi, gan sicrhau bod plant yn cael cyfle i esbonio pethau o'u safbwynt nhw. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu mynegi eu hunain.

Mae ymarferwyr yn hynod feithringar, yn sensitif ac yn effro i anghenion y plant sydd yn eu gofal. Mae pob un o'r ymarferwyr yn adnabod plant yn eithriadol o dda ac yn ymateb i'w hanghenion yn gyflym, gan rannu gwybodaeth werthfawr fel gweithwyr allweddol. Mae ymarferwyr yn hynod fedrus yn y ffordd y maent yn cynorthwyo plant y gallai fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol cydnabyddedig neu rai sy'n dod i'r amlwg. Maent yn sylwgar a thrylwyr iawn, gan sicrhau bod plant yn derbyn cymorth effeithiol, yn ôl yr angen. Maent yn dilyn cyngor proffesiynol ac yn rhagweithiol wrth chwilio am ffyrdd o gefnogi plant, gan sicrhau bod pob un o'r ymarferwyr yn dilyn dull cyson gyda phob plentyn. Mae'r dull hwn yn sicrhau darpariaeth gref a chyson ac ymrwymiad cadarn i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer y plant yn eu gofal. Maent yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd ac yn ddiwyd wrth gadw cofnodion cywir. Maent yn gweithio'n agos â rhieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau allanol i ddarparu cymorth rhagorol ar gyfer y plant yn y lleoliad.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o ddatblygiad plant a sut mae plant yn dysgu. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain ac yn deall cryfderau ac anghenion unigol plant yn eithriadol o dda. Maent yn arsylwi plant yn chwarae ac yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol sy'n annog eu chwilfrydedd. Mae hyn yn datblygu annibyniaeth a medrau datrys problemau plant ar draws holl feysydd y ddarpariaeth.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau rhifedd plant. Maent yn annog plant i adrodd rhifau yn y ddwy iaith a chyfrif nifer y plant yn y lleoliad. Trwy drafodaethau medrus, mae ymarferwyr yn cyflwyno cysyniad mesur yn effeithiol yn ystod chwarae yn y dŵr a chwarae ymchwiliol. Mae ymarferwyr yn darparu ystod addas o brofiadau i blant ddatblygu eu medrau digidol trwy ddefnyddio dyfeisiau a theganau digidol. O ganlyniad, mae plant yn dewis offer yn annibynnol ac yn dechrau deall diben technoleg ddigidol. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn defnyddio holi yn fedrus i ymestyn medrau datrys problemau a meddwl plant. Er enghraifft, gofynnir i blant feddwl am sut i wneud ardal awyr agored yn ddiogel ar gyfer dringo a rhedeg. Maent hefyd yn fedrus iawn o ran deall pryd i ymyrryd a phryd i gamu'n ôl i roi amser i blant weithio pethau allan drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn caniatáu i blant gael y rhyddid i archwilio sut mae pethau'n gweithio, er enghraifft clorian fawr yn yr awyr agored. Maent yn cyflwyno offer a deunyddiau eraill i alluogi plant i gywiro problemau drostynt eu hunain.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r Gymraeg gyda'r plant. Maent yn siarad yn glir ac yn achub ar gyfleoedd i gyflwyno geirfa newydd yn bwrpasol, gan annog plant i ddatblygu eu dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion syml. Maent yn annog plant i ymuno wrth ganu amrywiaeth o ganeuon a rhigymau Cymraeg ac yn defnyddio Cymraeg achlysurol i roi cyfarwyddiadau, a'u llongyfarch pan fyddant wedi gwneud yn dda. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae defnydd annibynnol y plant o'r Gymraeg.

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd dysgu cyfoethog a difyr o ansawdd uchel dan do ac yn yr awyr agored, sy'n ysbrydoli chwilfrydedd ac archwilio, ac yn galluogi plant i ddewis yn annibynnol ble maent yn dymuno dysgu. Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod ddifyr o weithgareddau dysgu a chwarae sy'n galluogi plant i ddatblygu ystod o fedrau yn raddol ym mhob maes. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y rhan fwyaf o weithgareddau'n cael eu hysgogi gan y plentyn ac yn deillio o ddiddordebau plant. Er enghraifft, wedi i blant gyffroi ar ôl gweld gwiwer, mae ymarferwyr yn cynllunio ystod o weithgareddau difyr i ymestyn y profiad hwn. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i'r plant greu cuddfannau a chyfarpar bwydo, a dysgu defnyddio binocwlars er mwyn gweld y wiwer yn gliriach.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl da ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu plant. Er enghraifft, maent yn rhannu llyfrau gyda phlant, yn modelu sut i ddarllen llyfr yn gywir ac yn trafod y stori'n frwdfrydig gan ddatblygu mwynhad plant o ddarllen. Maent yn annog plant yn effeithiol i ymgymryd â phrofiadau creu marciau, fel ysgrifennu rhestrau siopa a defnyddio padiau digidol i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar.

Mae ymarferwyr yn dechrau gwneud defnydd mwy effeithiol o'r ardal leol i gyfoethogi dysgu'r plant ac yn trefnu ymweld â'r siopau lleol, y siop tecawê Dsieineaidd a'r parc. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad o berthyn i'r gymuned leol ac yn cyfoethogi gwybodaeth plant am yr ardal a'i thraddodiadau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau o ansawdd uchel sy'n galluogi plant i ddatblygu'n ysbrydol, yn foesol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i beintio pabïau a bod yn ddistaw am funud wrth ddysgu am Ddydd y Cofio. Maent yn darparu amrywiaeth o lyfrau a theganau amlddiwylliannol, a ffigurau byd bach ar gyfer plant i ddechrau dysgu am wahanol ddiwylliannau a'u traddodiadau. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i blant ddysgu am eu hunaniaeth a'u diwylliant Cymreig trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a blasu bwydydd traddodiadol o Gymru. Mae ymarferwyr hefyd yn darparu arddangosfa addysgiadol o nodweddion a thirnodau lleol sy'n helpu plant i ddatblygu ymdeimlad o gynefin.

Mae gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer monitro cynnydd plant yn hynod effeithiol. Mae ymarferwyr yn cynnal arsylwadau rheolaidd o chwarae'r plant ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i nodi'r camau nesaf mewn dysgu. Maent yn rhoi crynodebau rheolaidd i rieni a gofalwyr o gynnydd a lles eu plentyn.

## Yr amgylchedd:  Rhagorol

Mae'r amgylchedd yn ddiogel a saff. Mae drysau allanol i brif adeilad yr ysgol bob amser dan glo, ac mae ymarferwyr yn caniatáu mynediad awdurdodedig yn unig i ystafelloedd y lleoliad. Maent yn sicrhau bod cofnod o'r holl ymwelwyr yn cael ei gynnal. Mae arweinwyr yn sicrhau bod asesiadau risg cynhwysfawr a hynod effeithiol ar gyfer yr holl ardaloedd a gweithgareddau ar waith ac yn cael eu dilyn bob amser gan ymarferwyr. Maent yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol cynhwysfawr o'r amgylchedd i nodi a chael gwared ag unrhyw risgiau i ddiogelwch plant, lle bo modd.

Mae'r amgylchedd dan do yn wresog, yn groesawgar ac yn ddeniadol i blant, ac yn darparu amgylchedd rhagorol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ystafell wedi'i chynllunio'n ystyriol i ddarparu mannau amrywiol i symbylu diddordeb plant. Er enghraifft, mae ardaloedd fel y 'gornel gartref' a byrddau gweithgareddau peintio a thoes lliwgar wedi'u gosod yn atyniadol i wahodd plant i chwarae. Mae teganau a gweithgareddau yn gweddu i daldra plant gan eu galluogi i ddefnyddio'r hyn sydd ei eisiau arnynt a chwarae â nhw yn rhydd. Ceir gofod ymlacio diogel lle gall plant orffwys, darllen yn dawel a chysgu, os oes angen. Mae byrddau arddangos a ffotograffau o gwmpas y lleoliad yn rhoi ymdeimlad o berthyn i blant wrth iddynt ddathlu eu bywyd cartref a'u bywyd teuluol gyda phobl sy'n ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd. Mae toiledau a chyfleusterau newid clytiau yn lân a threfnus ac yn addas o ran nifer.

Cefnogir annibyniaeth plant yn dda gan gynllun y lleoliad. Er enghraifft, gall plant gael mynediad i'r toiledau yn annibynnol ac mae arweinwyr wedi datblygu ardal wisgo yn yr awyr agored. Mae hyn yn darparu ardal werthfawr i blant gymryd yr amser a'r gofod sydd eu hangen arnynt, gan symud rhwng ardaloedd a dysgu gwisgo a dadwisgo mewn dillad awyr agored yn annibynnol. Mae'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel, yn eang, yn ddeniadol ac yn naturiol, ac yn cynnwys glaswellt a choed aeddfed. Mae'n darparu llawer o gyfleoedd gwerthfawr i blant chwarae a dysgu yn yr awyr iach. Er enghraifft, mae'r ffrâm ddringo yn creu heriau corfforol tra bod yr ardaloedd plannu yn rhoi cyfleoedd i blant blannu a thyfu llysiau. Darperir dillad sy'n ddiddos a gwyntglos ar gyfer pob un o'r plant, ac mae hyn yn sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'r awyr agored ym mhob tywydd, tra'n aros yn gynnes, yn sych ac yn gorfforol gyfforddus.

Mae gan y lleoliad nifer fawr o deganau ac adnoddau chwarae o ansawdd uchel, dan do ac yn yr awyr agored, fel ei gilydd. Ceir cyfuniad o ddeunyddiau naturiol ac artiffisial gyda llawer o adnoddau pren atyniadol sy'n cefnogi datblygiad plant yn dda. Mae eitemau go iawn ac amlddiwylliannol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o gydraddoldeb ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae staff yn dilyn systemau cadarn iawn i wirio teganau, offer ac adnoddau yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn lân ac mewn cyflwr da.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, ymarferwyr a phlant. Maent yn darparu arweinyddiaeth gref i ymarferwyr ac mae ganddynt ddyheadau uchel ar eu cyfer, sy'n eu grymuso i arwain a gwneud penderfyniadau er budd plant. Mae'r weledigaeth a'r ethos clir hwn yn arwain at waith tîm hynod effeithiol a chydweithrediad llwyddiannus ymhlith ymarferwyr. Mae datganiad diben clir yn rhoi darlun cywir o'r lleoliad a chaiff polisïau perthnasol eu hadolygu'n rheolaidd a'u rhannu â rhieni ac ymarferwyr. Mae hyn yn creu amgylchedd diogel a chartrefol lle gall plant ffynnu. O ganlyniad, mae plant wrth eu boddau yn mynychu'r lleoliad ac yn gwneud cynnydd rhagorol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant cryf a chadarn sy'n ystyried barn ystod eang o randdeiliaid. Mae arweinwyr yn ymgynghori â rhieni a gofalwyr yn rheolaidd i holi eu barn am y lleoliad a'r hyn sydd angen ei wella. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, a thrafod beth sy'n gweithio'n dda, a beth gellid ei wella. Defnyddir yr holl wybodaeth hon yn bwrpasol i gynllunio ar gyfer gwella. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o werthuso parhaus, gan anelu at ddarpariaeth o'r safon uchaf ar gyfer plant yn eu gofal.

Mae'r lleoliad yn defnyddio cyllidebau a grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau yn bwrpasol. Mae arweinwyr yn ymestyn profiadau dysgu plant trwy fuddsoddi mewn adnoddau gwerthfawr, fel seddau a lleoedd storio, sy'n galluogi plant i fanteisio'n hawdd ar amrywiaeth o ddeunyddiau creadigol a chwarae yn y dŵr. Mae'r trefniant ystyriol hwn yn annog cyfranogiad gweithredol ac yn sicrhau bod plant yn ymgysylltu'n llawn â'u chwarae a'u dysgu.

Mae arweinwyr yn dilyn trefniadau effeithiol i oruchwylio a monitro perfformiad ymarferwyr. Gyda'i gilydd, maent yn myfyrio ar eu rolau, eu cyfrifoldebau, yn nodi targedau synhwyrol ar gyfer gwella ac yn trefnu hyfforddiant gwerthfawr o ansawdd da, yn ôl yr angen. Er enghraifft, cymerodd y tîm cyfan ran mewn hyfforddiant pwrpasol i drafod sut i gynllunio yn y ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu medrau plant.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol sy'n hyrwyddo dysgu'r plant yn llwyddiannus. Ceir cysylltiadau cryf â rhieni, grwpiau cymorth ADY a'r awdurdod addysg lleol. Mae cysylltiadau cadarnhaol â'r ysgolion lleol yn datblygu, ac o ganlyniad, mae trefniadau mwy cadarn ar waith i sicrhau bod cyfnod pontio plant i gyfnod nesaf eu haddysg yn mynd rhagddo'n esmwyth.

Mae gan arweinwyr berthnasoedd sefydledig a chryf â rhieni a gofalwyr. Maent yn rhoi gwybodaeth reolaidd i rieni am gynnydd eu plant, ac ystod y gweithgareddau y maent yn eu mwynhau tra byddant yn y lleoliad. Ceir cyfleoedd rheolaidd i rieni drafod profiadau eu plentyn a dathlu eu cynnydd mewn gwahanol fedrau.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/05/2025